**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr**
**15 Mehefin 2020**
**Drwy Skype**

**Nodiadau'r Cyfarfod**

| **Yn Bresennol** | **Sefydliad** |
|---|---|
| Alyson Francis | LlC |
| Mike Evans | CNC |
| Dorian Lloyd | HDC |
| Paul Harris | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| Y Cynghorydd Rod Shaw | Panel Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Heidi Bennett | Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) |
| Helen Hammond | Cymorth Partneriaeth |
| Huw Jakeway | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Judith Jones | Cymorth partneriaeth |
| Katy Chamberlain | Busnes mewn Ffocws |
| Marcus Longley | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf |
| Y Cynghorydd Richard Young | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Martin Morgans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Mark Brace | PCC |
| Eirian Evans | Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru |
| Richard Hughes | Awen |
| Simon Pirotte | Coleg Pen-y-bont ar Ogwr |
| **Ymddiheuriadau** | |
| Mark Shephard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Y Cynghorydd Huw David | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Joanne Oak | V2C |

| **Rhif** | **Sylw** | **Cam Gweithredu** |
|---|---|---|
| **1** | **Croeso a chyflwyniadau** | |
| 1.1 | Croesawodd MB aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'r cyfarfod rhithwir. Bydd y cyfarfod cyntaf hwn ers yr achosion o Covid-19 yn canolbwyntio ar adferiad ac adolygu sut, yng nghyd-destun ein cynllun, y gallwn weithio mewn gwahanol ffyrdd i ddelio â materion sy'n deillio o hynny. Bydd yn bwysig i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyd-fynd â grwpiau eraill sy'n gweithio ar adferiad er eglurder ac osgoi dyblygu. | |
| **2** | **Covid-19** | |
| **2.1** | **Y Sefyllfa Bresennol a Materion Uniongyrchol** | |
| | Rhannodd y partneriaid wybodaeth am effaith Covid-19 ar eu priod wasanaethau a thynnu sylw at faterion sy'n codi megis iechyd meddwl, tlodi bwyd, mwy o hawliadau am fudd-daliadau, trais domestig. Mynegwyd pryder am effaith llacio'r cyfyngiadau a hefyd yr effaith | |


MAE'R DDOGFEN YMA HEFYD AR GAEL YN SAESNEG. THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE IN WELSH

| | | |
|---|---|---|
| | hirdymor ar gyflogeion a busnesau unwaith y daw'r cynllun ffyrlo i ben. Ceir manylion yr adborth gan bob sefydliad yn yr Atodiad | |
| 2.2 | **Panel Adfer Arfaethedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr/Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned**<br>Mae adroddiad gyda dull cyffredinol o adfer ar gyfer y Cyngor yn mynd i Gabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 30/6 a fydd yn sefydlu panel adfer ar hyd llinellau craffu a fydd yn datblygu cynllun a blaenoriaethau. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ystyried y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn hanfodol i gynhyrchu asesiad effaith ac i gadw llygad barcud wrth i sefyllfaoedd ddatblygu. Gofynnir i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus roi tystiolaeth i'r panel pan gaiff ei sefydlu. **Cam Gweithredu: Bydd LG yn cysylltu â thîm cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unwaith y bydd y panel wedi'i sefydlu**<br><br>Cefnogwyd y gwaith o ddatblygu asesiad o'r effaith ar y gymuned gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a fyddai'n diweddaru/ategu ein hasesiad WB a hefyd yn ddefnyddiol i wirio ein blaenoriaethau a'n hamcanion. Gofynnwyd i bob aelod gyfrannu at yr asesiad. Nodwyd bod hwn yn ddarlun sy'n dod i'r amlwg felly bydd angen i bob aelod ddarparu gwybodaeth, ymatebion ac adborth parhaus. **Cam gweithredu: Mae'r Aelodau'n ymrwymo i gyfrannu at asesiad o'r effaith ar y gymuned. Gofynnwyd am wirfoddolwyr ar gyfer grŵp gorchwyl a gorffen.**<br><br>Awgrymwyd y dylid cael cydgysylltiad rhanbarthol o asesiad o'r effaith ar y gymuned ac ymateb cyffredin lle y bo'n bosibl. **Cam gweithredu - timau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyfarfod i drafod cydgysylltiad rhanbarthol o asesiad o'r effaith ar y gymuned.**<br><br>Teimlwyd bod amseru'n hanfodol i asesu a gweithredu cyn gynted â phosibl pan ddaw'r cynllun ffyrlo i ben ym mis Hydref. Bydd hyn yn effeithio ar yr economi, ac ar iechyd a lles unigolion a chymunedau. | **LG**<br><br>**Pawb**<br><br>**Pawb/ JJ**<br><br>**JJ/HH** |
| 2.3 | **Rhyddhau ac Adfer** | |
| | Yn dilyn trafodaethau ar yr effaith ar wasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau, tynnwyd sylw at y materion allweddol canlynol ar gyfer adfer | |
| | **Trais Domestig**<br>Yn genedlaethol, mae pryder ynghylch y risg gynyddol o drais domestig. Mae adroddiadau ac atgyfeiriadau ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn isel ond yn codi tuag at normal. Mae'r ymgyrch 'dydych chi ddim ar eich pen eich hun' yn cael ei hyrwyddo i annog dioddefwyr i siarad. Yn genedlaethol, mae mathau o alwadau i linellau cymorth Trais Domestig hefyd wedi newid. Mae atgyfeiriadau gan sefydliadau wedi gostwng yn sylweddol tra bod llawer mwy o alwadau gan unigolion erbyn hyn ac mae'r sefyllfaoedd hynny'n fwy cymhleth.<br>Canfu Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru fod atgyfeiriadau ar gyfer cymorth, amddiffyn ac atal dioddefwyr Trais Domestig wedi lleihau ar ddechrau'r ynysu ond rhoddwyd sylw i hyn ac mae ymweliadau diogelwch â chartrefi risg uchel yn digwydd erbyn hyn.<br>Mae BAVO hefyd wedi bod yn cyfeirio pobl at CALAN, ac at y canolfannau cymorth cynnar. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae gan y Gwasanaeth Prawf bryder penodol ac wedi bod yn archwilio trais domestig am risgiau uchel ac uchel iawn gan nad yw swyddogion wedi gallu mynd i gartrefi i weld y sefyllfa ddomestig. **Darparu data ar linell gymorth genedlaethol cam-drin domestig 'byw heb ofn' Cymru.** | **AF** |
| | **Iechyd Meddwl**<br>Mae effaith covid-19 ar iechyd meddwl yn peri pryder sylweddol ar draws y partneriaid ac mae ei effaith i'w gweld eto.<br>Dywed y gwasanaethau Cymorth i Ddioddefwyr fod y straen o aros i dreialon fynd rhagddynt wedi cael effaith ar iechyd meddwl dioddefwyr a thystion. Mae problem enfawr hefyd o ran iechyd meddwl troseddwyr benywaidd ac mae hyn wedi arwain at rai hunanladdiadau. Mae pryder go iawn ei bod yn anodd cael gwybodaeth am bobl y mae angen cymorth arnynt gan nad oes adroddiadau neu atgyfeiriadau yn dod drwodd yn y ffordd arferol. | |
| | **Lleihau Allyriadau Carbon**<br>Un mater i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol fydd gweld sut y gall ein sefydliadau gyfrannu at gynnal y gostyngiad mewn CO2 a brofir yn ystod y cyfnod clo yn y dyfodol. Dylai’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fod yn hyrwyddo cynnal byw carbon isel a chraffu ar benderfyniadau ar draws y partneriaid er mwyn sicrhau bod Pen-y-bont ar Ogwr yn dilyn WFGA wrth gynllunio adferiad. | |
| | **Grwpiau agored i niwed**<br>Yn genedlaethol, gwyddom y bu effaith anghymesur ar bobl BAME, pobl anabl a phobl ifanc, sydd wedi cael eu heffeithio’n benodol gan yr economi ac o ran eu hiechyd a’u lles. Mae galwadau i Childline yn ymwneud â phryderon am gam-drin rhywiol a cham-fanteisio.<br>Wrth i’r cyfnod clo ddod i ben, mae pryder ynghylch sut i ddelio â materion fel grwpiau o bobl ifanc ac effaith ar ddysgwyr sy’n agored i newid. Yr her yw nodi pwy yw'r rhai sy'n agored i niwed, yn enwedig plant a phobl ifanc a phartneriaid sy'n gweithio i nodi dysgwyr sy'n agored i niwed a phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio. Adroddir bod galw cynyddol am eiddo rhent wrth i bobl ddiweddu perthnasoedd neu ffoi rhagddynt sy'n dangos risg o effaith teuluoedd yn chwalu yn y dyfodol. Tynnir sylw hefyd at dlodi bwyd fel problem. **Gweithredu: AF i archwilio a ellir dadansoddi data o'r arolwg plant i lawr i lefel ALl a'i rannu.** | **AF** |
| | **Newid defnydd mannau gwyrdd**<br>Mae partneriaid wedi sylwi ar y newid defnydd o fannau gwyrdd. **Cam gweithredu: cynnwys mannau gwyrdd a theithio llesol a chanlyniadau'r arolwg mannau gwyrdd yn yr asesiad o'r effaith ar y gymuned.** | **HH** |
| | **Gwirfoddoli a chyfleusterau cymunedol**<br>Mae dwbl nifer y gwirfoddolwyr wedi bod yn dod ymlaen ledled Cymru ond disgwylir y bydd hyn yn gostwng wrth i bobl ddychwelyd i'r gwaith. | |


MAE’R DDOGFEN YMA HEFYD AR GAEL YN SAESNEG.  THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE IN WELSH

| | | |
|---|---|---|
| | Mae angen inni feddwl sut y gallwn adeiladu ar y diddordeb a welsom mewn gwirfoddoli. Efallai y bydd gwirfoddolwyr lleol ar gael i gefnogi grwpiau cymunedol i ailddechrau arni, a byddai gwaith di-dâl yn cefnogi hynny hefyd gan y bydd gwaith ad-dalu/di-dâl cymunedol yn dod yn ôl o dan ymbarél y Gwasanaethau Prawf o fis Mehefin 2021.<br><br>Mae Covid-19 wedi effeithio ar gyfleusterau cymunedol, treftadaeth a chyfleoedd diwylliannol ac mae angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried sut y gellir eu cadw i fynd. Bydd grantiau elusennau bach drwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ddefnyddiol iawn i gynnal rhai canolfannau a mannau cymunedol yn ystod y cyfnod hwn gan yr effeithiwyd ar gynhyrchu incwm. | |
| **2.4** | **Cyfleoedd ar gyfer gweithio'n fwy effeithiol** | |
| | Nid oedd llythyr y Gweinidog yn glir ynghylch trefniadau gweithio gyda grwpiau eraill. Mae angen ystyried rôl y RCGI, RPB a'r hyn sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae pryder ynghylch dyblygu oherwydd eu bod yn rhannu'r un aelodau. **Cam Gweithredu: MB/MM i drafod sut i alinio'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a RCG, JJ i gael aelodaeth a thelerau cyfeirio LRF a SRG** | **MB/MM/ JJ** |
| 2.5 | **Datganiad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**<br>Cytunwyd y dylai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wneud datganiad ar ganlyniad yr asesiad a'n dull gweithredu wrth symud ymlaen. | **MB** |
| **3** | **Eitemau Busnes** | |
| 3.1 | **Adroddiad Blynyddol**<br>Roedd gwaith ar yr adroddiad blynyddol wedi dechrau cyn Covid-19 felly gallwn gyhoeddi i fodloni'r terfyn amser statudol. Roedd yr Aelodau'n falch o ddosbarthu'r cynllun drafft ac ni chynigiwyd unrhyw ddiwygiadau. **Cam Gweithredu: Cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol i'w gyhoeddi.** | **HH** |
| 3.2 | **Cyllid Rhanbarthol Llywodraeth Cymru ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.**<br>Anfonodd y Gweinidog lythyr at Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn datgan y byddai cyllid ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 2020-21 yn cael ei ganslo. Er bod y penderfyniad hwn yn siomedig gan y bydd gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus rôl bwysig i'w chwarae o ran adferiad, cytunwyd nad oedd angen ymateb. | |
| **4** | **Dyddiad ac Amser y cyfarfod nesaf** | |
| 4.1 | Cyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'w gynnal ar yr amlder arferol. **Cam gweithredu: dyddiad penodol ar gyfer cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.** | **HH** |

| **Cofnod Gweithred** | | |
|---|---|---|
| **Eitem** | **Cam Gweithredu** | **Gan** |
| 2.2 | **Bydd LG yn cysylltu â thîm cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unwaith y bydd y panel wedi'i sefydlu** | **LG** |
| **2.2** | **Timau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyfarfod i drafod cydgysylltiad rhanbarthol asesiad o'r effaith ar y gymuned** | **Timau cymorth y** |


MAE'R DDOGFEN YMA HEFYD AR GAEL YN SAESNEG. THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE IN WELSH

| | | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
|---|---|---|
| 2.2 | **Mae'r Aelodau'n ymrwymo i gyfrannu at asesiad o'r effaith ar y gymuned.** | **PAWB** |
| 2.2 | **Gofynnwyd am wirfoddolwyr ar gyfer grŵp gorchwyl a gorffen** | **JJ/Pawb** |
| 2.3 | **Darparu data ar linell gymorth genedlaethol cam-drin domestig 'byw heb ofn' Cymru** | **AF** |
| 2.3 | **AF i archwilio a ellir dadansoddi data o'r arolwg plant i lawr i lefel ALl a'i rannu.** | **AF** |
| 2.3 | **Cynnwys mannau gwyrdd a theithio llesol a chanlyniadau'r arolwg mannau gwyrdd yn yr asesiad o'r effaith ar y gymuned.** | **HH** |
| 2.4 | **MB/MM i drafod sut i alinio'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a RCG** | **MB/MM** |
| 2.4 | **JJ i gael aelodaeth a thelerau cyfeirio LRF a SRG** | **JJ** |
| 3.1 | **Cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol i'w gyhoeddi.** | **HH** |
| 4.1 | **Pennu dyddiad ar gyfer cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.** | **HH** |


MAE'R DDOGFEN YMA HEFYD AR GAEL YN SAESNEG.  THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE IN WELSH